

**Atebion**

# Beth ar y ddaear... ?

<b>Sleid 1:</b>	
Beth:	Ras Santas - maen nhw'n sgïo neu'n byrddio ar yr eira, yn yr oerfel.
Ble:	Mynydd Windham, Efrog Newydd, UDA.
Pam:	Codi arian - a chael hwyl.
<b>Sleid 2:</b>	
Beth:	Pobl yn teithio ar esgidiau sglefrolïo ar fore Nadolig. Mae'r heddlu'n clirio'r traffig o'r strydoedd er mwyn sicrhau bod y ffyrdd yn glir ar gyfer y bobl hyn.
Ble:	Caracas, Prifddinas Venezuela, De America.
Pam:	Mynd i'r offeren yn yr eglwys, yn gynnar ar Fore Nadolig.
<b>Sleid 3:</b>	
Beth:	Ras rafftiau - mae pobl yn defnyddio gwahanol fathau o rafftiau i rasio i lawr yr afon ar Ddydd San Steffan. Mae'n oer iawn! Mae'n wlyb iawn - yn enwedig pan fydd pobl yn syrthio i mewn i'r dŵr. Mae llawer yn gwisgo gwisg ffansi.
Ble:	Ar afon Derwent, Matlock, Swydd Derby.
Pam:	Codi arian - a chael hwyl.
<b>Sleid 4:</b>	
Beth:	Rholïo casgenni - mae pobl yn dod i rolïo casgenni drwy'r dref. Mae gwahanol gategoriâu o gystadlu. Hefyd, mae stondinau, bwyd a diod a llawer mwy.
Ble:	Dinbych
Pam:	Codi arian - a chael hwyl.
<b>Sleid 5:</b>	
Beth:	Rasys ceffylau pantomeim. Mae gwahanol gategoriâu o gystadlu, e.e. ras hwyl o gwmpas Greenwich, ras adlam, ras <i>space hopper</i> ac ati. Hefyd, mae dawnswyr Morris, gwesteion enwog, cerddorion a llawer mwy.
Ble:	Llundain
Pam:	Codi arian - a chael hwyl.
<b>Sleid 6:</b>	
Beth:	Y Fari Lwyd
Ble:	Cymru
Pam:	Parhau â thraddodiad Cymraeg